



Llywodraeth Cymru  
Welsh Government



## Cronfa'r Môr a Physgodfeydd Ewrop (EMFF)

**MAE'R FFURFLEN GAIS HON AR GYFER CYMORTH I  
FESURAU IECHYD CYHOEDDUS MEWN PERTHYNAS Â  
DYFRAMAETH**

(Erthygl 55)

# ***Canllawiau ar sut i'w llenwi***

## **LLENWI'R FFURFLEN HON**

Dylech ddarllen y canllawiau hyn ar gyfer pob cwestiwn cyn mynd ati i'w ateb. Ar gyfer cwestiynau lle mae angen ichi lenwi tabl, ceir tabl enghreifftiol yn y Nodyn Cyfarwyddyd ar Gymorth ar gyfer Dyframaeth, Prosesu a Marchnata i ddangos ichi'r ffordd orau o'i lenwi.

**RHYBUDD – Efallai y bydd unrhyw un a fydd yn mynd ati'n fwriadol neu'n ddi-hid i wneud datganiadau ffug neu gamarweiniol er mwyn cael grant dan Raglenni'r EMFF, neu a fydd yn cynorthwyo rhywun arall i gael grant, yn cael ei erlyn.**

## **CYFLWYNIAD**

Drwy'r ffurflen ar ei hyd, dylech nodi'ch atebion i'r cwestiynau drwy glicio'ch llygoden yn y blwch cyfatebol. Os oes angen ichi esbonio'ch ateb, dylech ddefnyddio'r blwch testun i wneud hynny. Bydd y blwch testun yn ehangu'n awtomatig wrth ichi deipio.

Sylwer bod atebion wedi cael eu rhoi mewn rhai o'r blychau yn barod, er enghraifft, enw'r Prosiect (cwestiwn 2.1). Nid yw'r blychau hynny'n rhai rhyngweithiol ac ni allwch eu newid.

Dylech lenwi'r ffurflen hon yn electronig a'i chyflwyno drwy'ch cyfrif RPW Ar-lein erbyn **21 Medi 2020** fan hwyraf.

## **AMDANOCH CHI 1.a**

Gofynnir ichi roi manylion amdanoch eich hun, megis eich enw, eich cyfeiriad a'ch rhifau ffôn. Byddwch yn cael cais hefyd i nodi dewis iaith eich sefydliad drwy roi tic yn y blwch perthnasol.

## **YNGLŶN Â'CH BUSNES 1.b**

Gofynnir ichi pa fath o fusnes neu sefydliad yr ydych yn ei gynrychioli. Rhaid ichi ddewis **un** o'r opsiynau. Ystyr unig fasnachwr yw rhywun sy'n rhedeg ei fusnes ei hun fel unigolyn, ac sydd, felly, yn hunangyflogedig. Gallwch gyflogi staff i weithio drosoch, ond rhaid mai chi yn unig sy'n gyfrifol am redeg y busnes. Ystyr partneriaeth ar y cyd yw grŵp o unig

fasnachwyr neu sefydliadau sy'n gwneud cais gyda'i gilydd am gyllid ar gyfer prosiect. Dylech ateb '**Arall**' os nad yw'ch sefydliad yn un o'r uchod. Byddwch yn gallu dweud wrthym pa fath o sefydliad ydyw yn y cwestiwn nesaf ar y ffurflen gais.

### **AWDURDOD I YMRWYMO'CH SEFYDLIAD 1.c**

Os ydych yn unrhyw beth heblaw unig fasnachwr, rhaid ichi gadarnhau bod eich sefydliad neu'ch partneriaeth ar y cyd wedi rhoi'r awdurdod ichi wneud cais am gyllid EMFF. Mae'n bosibl y byddwn yn gwirio hynny wrth inni fynd at ii gadarnhau a ydych yn gymwys i wneud cais. Os ydych yn bartneriaeth ar y cyd, rhaid ichi ddarparu llythyr dyddiedig, wedi'i lofnodi oddi wrth bob un o'r partneriaid eraill i brofi eu bod wedi rhoi'r awdurdod ichi weithredu ar eu rhan.

### **MASNACHU DAN ENW ARALL / PERTHYNAS AG UNRHYW SEFYDLIAD ARALL 1.d**

Os yw hynny'n berthnasol, rhowch enw unrhyw sefydliadau sy'n gysylltiedig â'ch sefydliad chi, a nodwch eich perthynas â nhw. Er enghraifft, efallai fod eich cwmni'n berchen ar is-gwmni.

### **CYFEIRNODAU'R BUSNES NEU'R SEFYDLIAD 1.e**

Gofynnir ichi roi'ch Rhif Gwerthwr, Rhif y Cwmni ac, os yw hynny'n berthnasol, eich Rhif Elusen. Hefyd os ydych wedi'ch cofrestru at ddibenion TAW, dylech roi'ch rhif TAW. **Sylwer** – Fel arfer, rhaid i grantiau a hawlir dan gynlluniau EMFF fod yn seiliedig ar wariant nad yw'n cynnwys TAW. Ond os yw'ch sefydliad heb ei gofrestru at ddibenion TAW, cewch hawlio grant a fydd yn cynnwys TAW.

### **PERCHNOGION A CHYFARWYDDWR Y BUSNES NEU'R SEFYDLIAD 1.f**

Gofynnir ichi nodi a yw'r ymgeisydd yn fusnes partneriaeth. Os ydyw, rhowch fanylion.

### **YNGLŶN Â'CH PROSIECT**

#### **ENW'R PROSIECT 2.a**

Rhaid rhoi enw unigryw i bob prosiect. Felly, defnyddiwch yr enghraifft uwchben y blwch i nodi enw'ch busnes ac yna rhowch 'Y Cynllun Busnesau Dyframaethu' ar ei ôl.

### **DISGRIFIAD O'R PROSIECT 2.b**

Mae'r blwch hwn wedi cael ei llenwi'n barod ar y ffurflen gais er mwyn sicrhau bod ymatebion yn gyson â'r gofynion cymhwystra ac adrodd sy'n gysylltiedig â'r EMFF. Yn yr achos hwn, nid oes angen i'r ymgeisydd gyflwyno achos busnes annibynnol.

### **LLEOLIAD Y PROSIECT 2.c**

Rhowch y cyfeiriad ar gyfer adeilad neu safle'ch busnes.

### **AMSERLEN Y PROSIECT 2.d**

Mae'r adran hon wedi cael ei llenwi'n barod i adlewyrchu'r cyfnod y bydd cymorth ar gael dan y cynllun Erthygl 55.

### **COSTAU'R PROSIECT 2.e**

*Rhaid i chi gyflwyno achos busnes ar gyfer unrhyw brosiectau sy'n ymwneud â chymorth ar gyfer ffermwyr dyframaeth newydd neu os ydych yn entrepreneur sy'n newydd-ddyfodiad i'r sector, beth bynnag yw costau'ch prosiect. Ym mhob achos arall, dim ond os yw'ch prosiect yn werth £25,000 neu'n fwy (sef cyfuniad o'r cyllid a'ch arian eich hun) y dylech gyflwyno achos busnes.*

### **CYNHYRCHION DYFRAMAETH 2.f**

Mae'r adran hon wedi cael ein llenwi'n barod ar y ffurflen gais er mwyn sicrhau bod ymatebion yn gyson â gofynion y Rheoliad EMFF.

### **GWEITHWYR CYFLOGEDIG A CHANIATADAU 2.g/2.h**

Bydd angen ichi llenwi'r adrannau hyn yn unol â'r Nodyn Cyfarwyddyd Cyffredinol ar gyfer ceisiadau EMFF ac yn unol hefyd â'r canllawiau penodol ar gyfer ceisiadau Dyframaethu, Prosesu a Marchnata.

Mae'r adran hon wedi cael ein llenwi'n barod ar y ffurflen gais er mwyn sicrhau bod ymatebion yn gyson â gofynion y Rheoliad EMFF.

## **CAPASITI A GWERTH CYNHYRCHU 2.i/2.k**

Mae angen yr atebion hyn ar gyfer adroddiadau a gaiff eu cyflwyno i'r Comisiwn Ewropeaidd, a dylent gynnwys y capasiti blynyddol presennol a gwerth y cynhyrchion, yn ôl rhywogaeth. Am nad yw'r cyllid yr ydych yn gwneud cais amdano dan Erthygl 55 yn cael ei ddarparu naill ai er mwyn ehangu capasiti neu werth cynhyrchion eich busnes, byddem yn disgwyl i'r data "ar ôl y prosiect" yng Ngholofnau 4 a 5 beidio â bod yn fwy na'r data y cyfeirir atynt yng Ngholofnau 2 and 3 yn y 2 dabl cyntaf.

Dylech lenwi'r trydydd tabl drwy gymryd gwerthiant misol cyfartalog eich busnes dros y 3 blynedd diwethaf (o gyfrifon blynyddol eich gweithrediadau dros y 3 blynedd diwethaf) a thynnu unrhyw werthiant yn ystod misoedd Mawrth, Ebrill a Mai 2020. Mae hyn yn rhoi ffigur sylfaenol y gallwch ei ddefnyddio i gyfiawnhau'r cyfrif y byddwch yn ei wneud o'r ffigurau misol ar gyfer yr "incwm a ildwyd" ar gyfer cyfnod y cymorth. Bydd yn cael ei ddefnyddio i ardystio gwerth y cymorth ariannol y byddwch yn ei hawlio. Dylech ddarparu Nodiadau Gwerthiant Gwreiddiol a dogfennau Symudiadau Pysgod ar gyfer y cyfnod rhwng 1 March 2020 a 31 Mai 2020 er mwyn cyfiawnhau'ch ffigurau. Byddwn yn eu gwirio drwy eu cymharu â chofnodion yr Adran pan fyddwn yn mynd ati i benderfynu ar faint y cymorth ariannol a gewch.

## **CYLLID PROSIECTAU 3a/3b/3c**

Mae'r canrannau cymwys ar gyfer y Cynllun hwn dan Erthygl 55 wedi cael eu cynnwys yn **Nhabl A**, a dylai'r "cyfanswm" yn y tabl olaf yn Adran A gyfateb i'r "cyfanswm" yn Nhabl A. Sylwer na ddylai'r "cyfanswm" gynnwys TAW os ydych wedi'ch cofrestru at ddibenion TAW ond y dylent gynnwys TAW os nad yw'ch busnes wedi'i gofrestru at ddibenion TAW.

Dylech rannu cyfanswm y costau rhwng y Grant EMFF, y Grant Cenedlaethol a'ch Cronfeydd eich hun yn unol â'r canrannau sydd i'w gweld yn **Nhabl A (Colofn 3)**.

Dylech roi 21 Medi 2020 ar gyfer y “Dyddiad Hawlio Amcangyfrifedig” (**Tabl B**). At ddibenion gweinyddol y gwneir hynny ond gallwch wneud cais am gymorth ariannol cyn 21 Medi 2020. Y dyddiad cau ar gyfer chyflwyno'ch ffurflen gais a'r dogfennau ategol yw 21 Medi 2020.

Mae **Cwestiwn C** yn gofyn a yw'ch busnes wedi gwneud cais am grant neu wedi cael grant yn y gorffennol dan fentrau eraill a sefydlwyd gan Lywodraeth y DU mewn ymateb i'r pandemig COVID-19. Wrth ateb y cwestiwn hwn, mae angen ichi roi gwybod am bob cais arall yr ydych wedi'i wneud dan unrhyw gynllun cymorth ariannol arall y mae Llywodraeth y DU wedi'i chyflwyno o ganlyniad i'r pandemig COVID-19 (er enghraifft, y Cynllun Cadw Swyddi (ffyrlo) neu gynlluniau ar gyfer yr hunangyflogedig, y cynllun grant ar gyfer busnesau bach, etc.). Mae'n bosibl y byddwn yn cysylltu ag adrannau eraill i gadarnhau bod eich ateb yn gywir.

### **BETH FYDD EICH PROSIECT YN EI GYFLAWNI? 4.a/4.b**

Mae'r ateb sydd wedi'i roi ar gyfer **Cwestiwn 4.a** yn adlewyrchu'r nodau, yr amcanion a'r targedau cymwys sy'n gysylltiedig â cheisiadau dan Erthygl 55. Os ydych am ychwanegu at yr ateb hwnnw, mae rhwydd hynt ichi wneud hynny ond gofynnir ichi gofio bod y Rheoliadau'n dweud na cheir darparu cyllid EMFF ar gyfer unrhyw weithrediad a oedd yn wynebu anawsterau ariannol yn syth cyn yr achosion o COVID-19.

Mae angen ichi ateb **pob cwestiwn yn y tabl**. Ni ragwelir y bydd y ffigurau “Ar ôl eich prosiect” yn uwch na'r ffigurau “Cyn eich prosiect”, o gofio'r rhesymau unigryw dros ddarparu'r cymorth ariannol yr ydych yn gofyn amdano.

Mae **Cwestiwn 4.b** wedi cael ei ateb yn barod ar y ffurflen gais er mwyn sicrhau bod ymatebion yn gyson â gofynion y Rheoliad EMFF.

### **RHESTR WIRIO O DDOGFENNAU**

Gofynnir ichi ddefnyddio'r rhestr wirio i sicrhau eich bod wedi cynnwys pob dogfen y mae'n ofynnol ichi ei chyflwyno gyda'ch cais.

### **DATGANIAD AC YMRWYMIAD**

Dylech ddarllen y datganiad yn ofalus ac os ydych yn fodlon ag ef, dylech llenwi'r manylion a'i lofnodi. Ni fydd eich cais yn cael ei ystyried yn un dilys os na fyddwch yn amgáu'r holl wybodaeth ategol y gofynnir amdani ac os na fyddwch yn llenwi'r ffurflen i gyd.

### **Llofnod Electronig**

Wrth gyflwyno'r ffurflen hon trwy gyfrwng eich cyfrif RPW Ar-lein, rydych yn gwneud y datganiad uchod.

**RHYBUDD: Efallai y bydd unrhyw un a fydd yn mynd ati'n fwriadol neu'n ddi-hid i wneud datganiadau ffug neu gamarweiniol er mwyn cael grant dan Raglenni'r EMFF, neu a fydd yn cynorthwyo rhywun arall i gael grant, yn cael ei erlyn.**